
Elysium
Learning Disabilities
and Autism



# Cefn Carnau

## Gwasanaeth adsefydlu diogelwch isel ar gyfer dynion a menywod

Part of Ramsay Health Care





# **Golwg Gyffredinol** ar Gefn Carnau

**Mae Cefn Carnau yn ysbyty modern diogelwch isel newydd gael ei adeiladu yng Nghaerffili, De Cymru.**

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i ddynion a menywod sydd ag anabledd dysgu, gan gynnwys pobl ag awtistiaeth. Yn seiliedig ar amodau'r cofrestriad, rhaid i'r anabledd dysgu fod yn brif ddiagnosis. Mae'n bosibl fod gan y bobl a gefnogir gennym broblemau iechyd meddwl hefyd, gan gynnwys Anhwylderau Personoliaeth. Ein nod yw lleihau'r problemau ac ymddygiadau iechyd meddwl a ystyrir yn heriol mewn lleoliad lle gellir rheoli a lleihau risg er mwyn galluogi unigolion i gamu i lawr i fyw'n gymunedol.

**Mae Cefn Carnau'n lletya defnyddwyr gwasanaeth mewn dwy ward benodol i'r rhyweddau**

- **Bryntirion**
- **Dderwen**





## Model Gofal

Mae'r tîm yng Nghefn Carnau yn gwrando ar anghenion unigolion ac yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn defnyddio'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol ac yn hybu annibyniaeth. Maent yn dilyn model Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol sy'n galluogi'r unigolyn i chwarae rhan lawn yn ei gynlluniau gofal a thriniaeth. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi adsefydlu, cynhwysiant cymdeithasol ac ailintegreiddio yn y gymuned leol.


Mae Tîm Amlddisgyblaethol llawn sy'n cynnwys Nyrsys Cymwysedig a Chynorthwywyr Gofal Iechyd, Therapydd Galwedigaethol, Gweithiwr Cymdeithasol, Seicolegydd a Seiciatrydd yn gweithio ar y safle. Mae gwasanaethau ychwanegol megis Therapi Lleferydd ac Iaith, a Deieteg hefyd ar gael yn ôl y galw.

## Yr Amgylchedd

Mae'r ysbyty newydd wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n bwrpasol â lles mewn golwg, ac mae'n darparu amgylchedd diogel a chyfforddus mewn lleoliad adsefydlu diogelwch isel. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys dwy ward benodol i'r rhyweddau, ystafelloedd gwely en-suite helaeth, ystafelloedd therapi, ystafell aml-ffydd, ystafelloedd synhwyraidd, mannau tawel, ystafell i deulu/ymwelwyr, campfa, a cheginau Gweithgareddau Bywyd Bob Dydd. Mae'r caffi canolog yn fan lle gall pobl ddatblygu eu hyder mewn lleoliad cymdeithasol a digynnwrf, ac yn rhoi cyfle i rai unigolion feithrin sgiliau mewn amgylchedd gwaith.







# Ein Nodau

Ein nod yw galluogi'r bobl sy'n cael eu cefnogi gennym i gael cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu bywydau a'r gefnogaeth a roddir iddynt.

- **Galluogi pawb i wneud dewisiadau a mynegi eu dymuniadau mewn cysylltiad â'u bywyd bob dydd.**
- **Annog y bobl rydym yn eu cefnogi i wneud pethau cyffredin, defnyddio gwasanaethau prif ffrwd, cael eu cynnwys yn y gymuned leol, a datblygu diddordebau gwaith a hamdden a chyfeillgarwch.**
- **Atal neu leihau ymddygiadau sy'n cael eu gweld fel rhai heriol a gwella ansawdd bywyd pobl.**
- **Cynorthwyo unigolion i gymryd rhan mewn cyflogaeth ystyrlon lle bo modd mewn gwaith â thâl a gwaith gwirfoddol, ac i wneud cyfraniad gwerthfawr i fyd gwaith.**
- **Sicrhau bod gan ein gweithlu sgiliau priodol, a'u bod wedi'u hyfforddi, ac yn gymwysedig, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o anghenion pobl sydd ag anabledd dysgu a rhai sydd ag awtistiaeth.**

Mae gan lawer o'r bobl sy'n cael eu cefnogi anawsterau synhwyraidd, sy'n golygu y gallant brofi sensitifrwydd uwch neu is i wahanol ysgogiadau synhwyraidd. Mae amgylchedd yr ysbyty yn lleihau'r risg o orlwytho'r synhwyrau.

- **Goleuadau llachar** – gallwn reoli pa mor llachar yw'r goleuadau yn yr adeilad drwy eu pylu neu eu diffodd lle bo modd, gan gynnwys mewn ardaloedd ar wahân.
- **Cymhorthion synhwyraidd** – mae'r rhain, e.e. sbectols haul ac amddiffynwyr clustiau, ar gael.
- **Tymheredd** – caiff tymheredd ystafelloedd ei fonitro yn barhaus a gellir ei addasu fel sy'n briodol.
- **Mapiau Synhwyraidd** – mae gan bob ward fap synhwyraidd, sy'n dangos pa rannau o'r ward sy'n fwy llachar, neu swnllyd.
- **Mannau tawel** – mae gan bob ward fan tawel ar wahân i'r brif ward, lle mae llai o sŵn a goleuadau llai llachar.
- **Ystafell synhwyraidd** – mae gan bob ward ystafell synhwyraidd â dodrefn meddal, cadeiriau meddal, goleuadau y gellir eu haddasu, ac eitemau synhwyraidd yn cynnwys cerddoriaeth, teganau ffidlan a pheli straen.
- **Storïau synhwyraidd** – defnyddir storïau synhwyraidd er mwyn helpu pobl sy'n mynd i'r gymuned neu'n defnyddio cyfleusterau cymunedol am y tro cyntaf.
- **Amgylcheddau hygyrch** – Mae gan Gefn Carnau gysylltiadau ag archfarchnadoedd lleol er mwyn galluogi pobl i siopa yn ystod cyfnodau llai prysur. Mae'n bosibl defnyddio cyfleusterau cymunedol sy'n cynnig perfformiadau mewn amgylchedd llai cynhyrfus, fel theatrau a sinemâu sydd ag addasiadau penodol ar gyfer pobl ag anghenion synhwyraidd.

Elysium Healthcare



## Rhaglenni Therapiwtig

Mae rhaglenni therapiwtig wedi'u teilwra er mwyn cynyddu potensial a gwella ansawdd bywyd pob unigolyn. Darperir asesiadau arbenigol o risg, anghenion seicolegol, ac anawsterau ymateb.

Mae'r therapïau a gynigir yn dilyn canllawiau seiliedig ar dystiolaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE):

- **Therapi Ymddygiadol Gwybyddol (CBT)**
- **Therapi Ymddygiadol Dialectegol (DBT)**
- **Therapi Ymddygiadol Dialectegol Hanfodol Agored (RO-DBT)**
- **Therapi sy'n Canolbwyntio ar Dosturi (CFT)**
- **Therapi Derbyn ac Ymrwymo (ACT)**
- **Cyfweld Ysgogiadol (MI)**
- **Therapi Seicodynamig (PT)**
- **Therapi Systemig (ST)**
- **Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiad Llygad (EMDR)**

Gallwn hefyd gynnig yr asesiadau a ganlyn

- **WAIS-IV ac ADOS-2**

## Therapi Galwedigaethol yng Nghefn Carnau

Nod therapi galwedigaethol yw galluogi annibyniaeth ac atal allgáu cymdeithasol fel bod unigolion yn gallu byw bywyd sydd â phwrpas iddo yn y gymuned. Mae'r tîm therapi galwedigaethol yn hybu annibyniaeth drwy sgiliau fel hunanofal, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cynhyrchiol.

**Asesiadau:** Bydd pob unigolyn yn cael asesiad cychwynnol. Gwneir Proffil Galwedigaethol a defnyddir Adnodd Sgrinio Model Gweithgareddau Dynol.

**Asesiadau Synhwyraidd:** Bydd yr Ymarferydd Integreiddio Synhwyraidd yn gwneud nifer o asesiadau pwrpasol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Gwneir Ymyriadau Modiwleiddio ac Addasiadau Amgylcheddol, a chynigir cefnogaeth drwy Therapi Integreiddio Synhwyraidd.


Gwneir asesiadau gweithredol, amgylcheddol a chymunedol eraill yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Y Model Gweithgareddau Dynol yw'r Model gofal sy'n sail i therapi. Mae'r asesiadau arferol yn cynnwys:

- **Yr Hunanasesiad o Dasgau a Gweithgareddau (OSA)**
- **Y Cyfweliad Hanes Cyflawni Tasgau a Gweithgareddau-II (OPHI-II)**
- **Yr Asesiad o Sgiliau Cyfathrebu a Rhyngweithio (ACIS)**
- **Yr Holiadur Ewyllysiadol (VQ)**
- **Y Cyfweliad Asesu Amgylchiadau Tasgau a Gweithgareddau a Graddfa Sgorio (OCAIRS)**

Mae asesiadau a wneir gan y Therapydd Galwedigaethol yn sail i therapi sy'n galluogi ac yn gwella lefelau ymgysylltu ac annibyniaeth, ac yn canolbwyntio ar gyfranogiad yn y gymuned. Mae'r dulliau gweithredu hyn ar ffurf gweithgareddau therapiwtig, gan gynnwys gweithgareddau gweithredol, cerddoriaeth, hamdden, gweithgareddau corfforol, hunanofal, ynghyd â gweithgareddau creadigol, a chyfleoedd cymunedol, garddwriaethol a galwedigaethol.







## Meini Prawf Derbyn

- Dynion a menywod 18 oed a throsodd
- Rhaid i unigolion fod ag anabledd dysgu o fewn yr amrediad ysgafn i gymedrol fel prif ddiagnosis.
- Pobl ag awtistiaeth
- Pobl ag anghenion cymhleth amrywiol o ran iechyd meddwl, iechyd corfforol ac anghenion synhwyraidd
- Unigolion a allai fod â hanes fforensig neu sy'n arddangos risg fforensig
- Unigolion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd 2007) a Chod Ymarfer Cymru

## Manylion cysylltu:


Cefn Carnau,
Lôn Cefn Carnau,
Y Ddraenen, Caerdydd,
De Cymru, CF83 1LX

**T: 02920 883 345**

E: cefncarnau@elysiumhealthcare.co.uk


I drafod Cefn Carnau yn fanylach neu i drefnu ymweliad neu wneud atgyfeiriad ffoniwch ein llinell atgyfeirio 24 awr ar **0800 218 2398** neu anfonwch ebost i **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, Braille, fersiwn Hawdd ei Ddeall a BSL ar gais**

Elysium Healthcare

Part of Ramsay Health Care

1644/0224